Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain Hydref 2014

Presennol - Einion Edwards Cadeirydd, Alun Jones, Hefin Edwards, Prys Ellis, Ieuan Jones, Guto G Jones, Peter Lewis Cyng. Sir, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Menai Hughes, Helen Ellis, Iwan Price, John D Jones

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed Fedi 2014

Dagan diddordeb – Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu
Eglurodd y clerc nad oedd yr heddlu yn medru bod yn bresennol ond cyfeiriwyd ganddynt nad oedd unrhyw ddigwyddiad o bwys wedi bod yn yr ardal. Gofynnwyd i'r clerc dynnu sylw bod defaid ar goll o fferm gyfagos a bod beic modur wedi ei ddwyn o fferm yng Nghwmpenanner

[1.1] Dyfodol y Llyfrgell
Dywedodd y clerc fod yr adeilad wedi ei adnewyddu a bod y llyfrgell ar agor. Y clerc i argymell i Grŵp Cefnogol y Llyfrgell y dylai bod arwydd ar yr adeilad yn hysbysu'r gwasanaeth.

[1.2] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]
Nodwyd bod y Cyngor Sir yn disgwyl am sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru i'r cynnig i ddefnyddio plastig ar gyfer creu pont i osgoi'r darn gwlyb.

[1.3] Trefnu ar gyfer Argyfwng/Ms Hedi Dobbs
Eglurodd y Cyng Peter Lewis ei fod yn parhau gydag ymholiadau.

[1.4] Cae Chwarae Ty'n y Felin/Gosod Goliau
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.5] Goleuadau Maes y Ffynnon
Deallwyd bod y goleuadau wedi ei gosod ond nad ydynt yn hollol foddhaol.

[1.6] Gwasanaeth Iechyd
Eglurodd y clerc nad oedd manylion wedi dod i law gan Menai Hughes ynglŷn â'r amgylchiadau i'r pryderon.

[1.7] Cattle Grid Ffordd Brenig ar Gyffordd ger y Sportman's Arms
Nodwyd nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ddinbych ynglyn a chyflwr y grid.

Y brif agenda

[1.8] Materion Cynllunio

Estyniad arfaethedig a newidiadau i'r annedd.
3 Cae Llwyd, Cerrig-y-Drudion.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad.

[1.9] Adolygiad Cefnffyrdd
Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Aled Roberts AC yn gwahodd sylwadau i gyflymder moduron ar Briffordd yr A5.. Penderfynwyd anfon fel a ganlyn:
[a] Croesffordd Penffordd [Saracens] Bod angen gosod 40 m.y.a. gan fod y cyhoedd yn croesi'r ffordd i'r capel, y gwesty ac i'w tai a bod y lleoliad yn beryglus.
[b] Bod angen gosod 40 mya yng Nglasfryn gan fod cyffordd brysur yn arwain i'r briffordd a bod y cyhoedd yn croesi'r ffordd i gyrraedd y llwybr cerdded a.y.b.

[2] Cyfraniad
Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn :
Y Gorlan Siec 100717 £100.00
Elusen Addysgol Cerrig-y-Drudion Siec 100718 £300.00

[2.1] Cadeiriau
Eglurodd y clerc bod cyfle am grant ar gyfer cadeiriau a byrddau i'r Ystafell Blwyf o gronfa Conwy Wledig. Penderfynwyd anfon cais. Y clerc i drefnu.

[2.2] Cartrefi Conwy
Deallwyd bod y Gymdeithas Tai wedi ei galw allan yn ddiweddar i drwsio'r gwres canolog yn 14 Maes Aled, a'i bod wedi ymateb yn gyflym i'r broblem. Penderfynwyd anfon gair o ddiolch am ei sylw parod.

[2.3] Derbyniadau
Swyddfa Audit Cymru £30.00
Y fynwent 455/456/457 £200.00

[2.4] Taliadau
Siec 100716 Scottish Power £25.91

Yn y banc 29/9/14 Cyfrif [1] £8347.98
Cyfrif [2] £1582.84